**Adolygwyd: Chwefror 2014**

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Grŵp: Ystlumod

---

**Cyflwyniad**

**Cwmpas**

Mae'r cynllun hwn yn cyfeirio at bob rhywogaeth o ystlumod sy'n gyffredin i Sir Benfro. Maent yn cynnwys:

***Vespertilionidae* (ystlumod "Vesper" -ystlumod sy'n byw mewn agennau gan fwyaf)**
Yr Ystlum Barbastelle, *Barbastella barbastellus* [1;6]
Yr Ystlum Bechstein, *Myotis bechsteinii* [1;3]
Yr Ystlum Natterer, *Myotis nattereri*
Ystlum y Dŵr/ Daubenton, *Myotis daubentonii* [2]
Yr Ystlum Barfog, *Myotis mystacinus*
Yr Ystlum Brandt, *Myotis brandtii*
Yr Ystlum Alcathoe, *Myotis alcathoe* [3]
Yr Ystlum Mawr, *Nyctalus noctula* [1]
Yr Ystlum Leisler, *Nyctalus leisleri* [5]
Yr Ystlum Adain-lydan, *Eptesicus serotonii* [5;7]
Yr Ystlum Hir-glust Frown, *Plecotus auritus*
Yr Ystlum Hir-glust Lwyd, *Plecotus austriacus* [3;4;5]
Yr Ystlum Lleiaf, *Pipistrellus pipistrellus*
Yr Ystlum Meinlais, *Pipistrellus pygmaeus*
Ystlum Bach Nathusius, *Pipistrellus nathusii* [3;8]

***Rhinolophidae*-Ystlumod Pedol**
Yr Ystlum Pedol Mwyaf, *Rhinolophus ferrumequinum* [6]
Yr Ystlum Pedol Lleiaf, *Rhinolophus hipposideros* [6]

Nodiadau

[1] Cysylltir y rhywogaethau yma'n benodol â choetiroedd a choed (e.e coed hynafol;)

[2] Cysylltir yr Ystlum Daubenton â dŵr e.e llynnoedd, pyllau mawr ac afonydd a nentydd sy'n llifo'n araf;

[3] Mae'r rhain yn rhywogaethau prin iawn a gofnodwyd o leiaf unwaith yn Sir Benfro ond nid oes gwybodaeth am eu statws cyfredol. Gallant fod yn grwydrol ac yn brin iawn;

[4] Cofnodwyd yr Ystlum Hir-glust Lwyd mewn safle ger y ffin â Sir Gaerfyrddin. Gallai hyn fod wedi bod yn ddigwyddiad unigol ac nid ydym yn gwybod dim am ei statws yn Sir Benfro;

[5] Mae'r rhywogaethau hyn yn grwydrol: ni feddylir eu bod yn bridio yn y Sir;

[6] Mae'r Ystlum Barbastelle yn nodwedd o Goetir ACA Gogledd Sir Benfro; mae'r Ystlum Pedol Mwyaf a'r Ystlum Pedol Lleiaf yn nodweddion yn Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd ACA Bosherston ac mae'r Ystlum Pedol Mwyaf yn nodwedd o ACA Clogwyni Carreg Galch De Orllewin Cymru.

[7] Mae'r cofnod o Ystlumod Adain-lydan ar gynnydd yn y Sir.

[8] Cofnodwyd yr athusius pipistrelles yn Ystagbwll yn ystod y 1990au. Nid ydym yn gwybod llawer amdanynt - yn debygol eu bod yn bresennol mewn niferoedd bychain.

## Datganiad Gweledigaeth

Gweledigaeth y Cynllun Rhywogaethau Grŵp yn Sir Benfro yw y dylid amddiffyn ystlumod a'u clwydfannau a bod adnoddau naturiol y Sir ( a lle'n berthnasol, yr adnoddau a adeiladwyd) yn cynnig cefnogaeth iach a sefydlog ar gyfer y rhywogaethau sy'n bridio ac yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer rhywogaethau newydd tebyg i'r Ystlum hir-glust lwyd i sefydlu ac ehangu yn y DU o ganlyniad i ffactorau tebyg i newid hirdymor yn yr hinsawdd.

## Disgrifiad o Rywogaethau

Mae gan bob ystlum Gylchred Bywyd blynyddol tebyg ac maent yn rhannu'r un anghenion sylfaenol:

- Clwydfannau diogel yn ystod y dydd a'r nos sy'n rhydd o unrhyw ymyrraeth;
- Arferion porthiant dibynadwy oddi fewn pellter teithio rhesymol o'u clwydfannau;
- Cydgysylltiad ecolegol da (llinellau hedfan) rhwng y clwydfannau

gwahanol a rhwng y clwydfannau ac ardaloedd porthiant. Mae'r rhain fel arfer yn dilyn nodweddion tywyll, cysgodol tebyg i berthi, llinellau coed, lonydd neu goridorau afonydd.

Mae gan Ystlumod amrywiaeth eang o anghenion cynefin y maent yn ddibynnol arnynt ar gyfer porthiant, clwydo a theithio rhwng clwydfannau ac ardaloedd porthiant. Mae Ystlumod yn aml yn gwneud defnydd o goed er bod anghenion penodol ar gyfer clwydfannau yn amrywio rhwng rhywogaethau. Mae Ystlumod Prydeinig yn bryfysol ac mae pob rhywogaeth yn y wlad naill ai'n gysgaduriaid neu'n ddibynnol ar gyfnod estynedig o gysgadrwydd yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae cyfanswm o 17 o rywogaethau o ystlumod wedi cael eu cofnodi o leiaf unwaith yn Sir Benfro. O'r rhain, mae 11 (naw ystlum "vesper" a'r ddwy rywogaeth pedol) yn rhywogaethau bridio preswyl ac mae dwy rywogaeth (Ystlumod Adain-lydan a Leisler) yn grwydrol ac ond wedi cael eu cofnodi'n achlysurol ac nid yw'n wybyddus os ydynt yn bridio yn y Sir. Mae tair rhywogaeth (Ystlumod Bechstein, Alcathoe ac Ystlum Bach Nathusius) yn brin iawn ac nid yw eu dosbarthiad a'u statws yn wybyddus yn Sir Benfro. Mae rhai rhywogaethau ar ffin ogleddol neu orllewinol eu hystod yn Sir Benfro ac ni fyddant felly o reidrwydd yn ffynnu.

Ceir un cofnod unigol (sy'n deillio o ddadansoddiad DNA o'u gwastraff) o'r Ystlum Hir-glust ar safle ger y ffin â Sir Gaerfyrddin. Gallai hyn fod wedi bod yn gofnod unigol, fodd bynnag mae modeli tirwedd yn awgrymu y gall Sir Benfro gefnogi poblogaeth o ystlumod llwyd hir-glust a gyfyngir i ardaloedd deheuol y DU - Swydd Dorset a Swydd Hampshire. Dyma un rhywogaeth allai fanteisio o batrwm hirdymor o aeafau mwyn a hafau cynhesach.

Mae rhywogaethau preswyl y Sir yn amrywio o rywogaethau prin tebyg i'r Ystlumod barbastelle a'r Bechstein sy'n preswylio mewn coedwigoedd i'r ystlumod lleiaf cyffredin a meinlais sydd efallai gyda'r rhywogaethau mwyaf hiollbresennol mean amgylcheddau trefol a maestrefol. Bach iawn sy'n wybyddus am ystlumod noctule a myotis yn y Sir.

Mae rhai rhywogaethau tebyg i'r Ystlum Pedol Mwyaf, y noctule a'r barbastelle i'w gweld mewn mannau agored o gefn gwlad lle maent yn bwydo ac yn gwneud yn fawr o linellau hedfan traddodiadol a chlwydfannau gyda'r nos. Mae eraill, tebyg i'r ystlum lleiaf cyffredin a'r ystlum hir-glust frown yn porthi oddi fewn i radiws o 1km o'u clwydfannau gyda'r dydd. Mae'r Ystlum Daubenton yn porthi dros ddŵr (llynnoedd, pyllau mawr a chyrff dŵr sy'n llifo'n araf) ac mae ystlumod lleiaf meinlais wedi eu cysylltu'n agos â choridorau afonydd.

Yn Sir Benfro, mae poblogaeth yr Ystlum Pedol Mwyaf wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf ac mae nawr wedi cyrraedd lefelau record o ran niferoedd y benywod sy'n bridio ac sy'n rhan o glwydfannau lle mae'r ifanc yn cael eu geni. Gwelwyd cynnydd yn sgil gaeafau mwyn y ddegawd ddiwethaf yn ogystal â ffactorau tebyg i well amddiffyniad ac ymwybyddiaeth o'u hanghenion cadwriaethol.

Mae ystlumod yn darparu gwasanaethau pwysig i'r system eco tebyg i reoli plâu ac mae’r dirgelwch sy’n eu hamgylchynu, yn sgil eu harferion nosweithiol yn ychwanegu ar y rhyfeddod a fynegir yn aml gan y cyhoedd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu tebyg i deithiau cerdded ystlumod. Mae poblogaethau iach o ystlumod yn arwydd o system eco iach ac sy’n gweithio’n dda.

## Statws Cadwriaethol

Mae pob Ystlum Prydeinig a’u clwydfannau wedi eu diogelu gan Gyfraith y DU a gan gyfraith Ewropeaidd. Mae lefel y diogelu yn cyfyngu ar waith allai ymyrryd, niweidio neu ddinistrio’r clwydfan neu niweidio ystlum. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio neu waith a fydd yn cael ei gwblhau trwy Ddatblygu a Ganiateir, yn anaml y bydd hyn yn rhwystro datblygiad ond byddai gofyn i’r ymgeisydd sicrhau ei fod yn cymryd camau i ddiogelu’r rhywogaeth a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a thrwyddedu. Dyrannu’r Trwyddedau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ganiatáu gweithgareddau a fyddai fel arall yn cael eu hystyried yn anghyfreithlon o dan Reoliadau Cynefinoedd.

## Bygythiadau

Yn ystod yr 20fed Ganrif, edwinodd poblogaethau ystlumod yn ddramatig yn y DU ac maent yn parhau i fod o dan fygythiad. Mewn rhai rhywogaethau, cofnodwyd lleihad arwyddocaol, er enghraifft, yr ystlum bedol fawr a welodd leihad mawr mewn niferoedd ac ystod yn ystod 1960au a’r 1970au. Digwyddodd y lleihad hwn ar yr un pryd ag y gwelwyd newidiadau mawr mewn amaethyddiaeth, yn benodol y newid o gaeau a oedd yn cael eu rheoli ar gyfer gwair a silwair, cynnydd yn y defnydd o blaladdwyr a chynnydd mewn maint caeau (a gwaredu perthi) a arweiniodd at golli cynefinoedd trychfilod ar gyfer porthiant a difrod i glwydfannau a nodweddion cynefinoedd pwysig eraill.

Mae’r bygythiadau i Ystlumod yn Sir Benfro’n cynnwys:

- Colli a/neu ddifetha clwydfannau (pob math)
- Colli a/neu ddifetha cynefinoedd porthiant o ganlyniad i newidiadau mewn rheoli tir a datblygiad yng nghefn gwlad gan gynnwys newidiadau goleuo a llygredd.
- Colli neu ymyrryd â chydgysylltiad ecolegol o ganlyniad i golli nodweddion llinellai fel perthi, coridorau afonydd, ymylon coetiroedd.
- Ymyrraeth a/neu erledigaeth fwriadol.
- Gallai ffactorau naturiol tebyg i ddigwyddiadau tywydd byrdymor a newid hirdymor yn yr hinsawdd effeithio ar eu gallu i oroesi yn y gaeaf; cynhyrchiant; bwyd. Gallai newid hirdymor yn yr hinsawdd hefyd gynnig cyfleoedd newydd i ymestyn yr amrywiaeth o rywogaethau sy’n sensitif i’r hinsawdd.

- Gallai clefydau sy'n cynnwys clefydau fungal pathogenic mewn coed olygu newidiadau mawr, dros dro yn y dirwedd (er enghraifft: *Chalara fraxinea*).

- Newidiadau mewn cynlluniau adeiladau sy'n cyfyngu'r cyfleoedd ar gyfer clwydfannau.

- I sawl rhywogaeth, gallai gweithredu cadwriaethol gael eu harafu gan ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'u statws a'u hanghenion ecolegol yn Sir Benfro.

**Cynlluniau Perthnasol, Polisïau a Chanllawiau**
Mae cynlluniau, polisïau a chanllawiau perthnasol eraill yn cynnwys:

- LBAP Sir Benfro: Cynlluniau Gweithredu Pob Cynefin; Ar gael yn: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376

- Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Chynllun Rheoli Craidd Safle Cadwriaethol Arbennig Llynnoedd Bosherston. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2008.

- Cynllun Rheoli Craidd Safle Cadwriaethol Arbennig Afonydd Cleddau. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2008.

- Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Ar gael yn: http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=178

- Canllawiau Cynllunio Ychwanegol Awdurdod Parc Arfordirol Cenedlaethol Sir Benfro. Ar gael yn: http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=183

- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Benfro. Ar gael yn: http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,141,1014&id=28946&language

- Canllawiau Cynllunio Ychwanegol Cyngor Sir Benfro (Adnewyddadwy a Bioamrywiaeth.) Ar gael yn: http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,141&parent_directory_id=646&id=21476

- Llawlyfr The Bat Workers, 3ydd Cyhoeddiad, Cyhoeddwyd gan JNNC, 2004

- Ystlumod a Mellt yn y DU. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. Ar gael yn: http://www.bats.org.uk/pages/bats_and_lighting.html

- Bat Surveys Good Practice (2ail Gyhoeddiad.) Cyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn 2012; Ar gael yn: http://www.bats.org.uk/pages/batsurveyguide.html

- Arolygiad a Synthesis o wybodaeth a Gyhoeddwyd a Phrofiad Ymarferol o Gadwraeth Ystlumod oddi fewn i Dirwedd sy'n Dameidiog. Adroddiad achlysurol gan y Tri Pharc Cenedlaethol, Cyngor Sir Benfro a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2005

- Cynllun Rheoli Craidd Safle Cadwriaethol Arbennig Coetiroedd Gogledd Sir Benfro. Gwybodaeth ar gael yn: <http://www.ccgc.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/special-sites-project/north-to-rhos-sac-list/north-pembs-woodlands-sac.aspx>

- Cyngor Technegol Nodyn 5, Cadwraeth Byd Natur a Chynllunio. Llywodraeth Cymru, 2009. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan5/?lang=en

- Rheoli Cynefinoedd Ystlumod y Coetiroedd. R. A. Mayle, Nodyn 165, Gwybodaeth Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth

- Rheoli Cynefinoedd Ystlumod: Canllaw ar gyfer Rheolwyr Tir, Perchnogion Tir a'u Cynghorwyr. Y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, 2001. Ar gael yn: <http://jncc.defra.gov.uk/pdf/Habitat_Management_for_bats.pdf>

- Nodyn Gwybodaeth Dechnegol TIN051, Natural England. Ail gyhoeddiad, 29 Chwefror 2012; Ystlumod a melinau gwynt ar y tir. Canllawiau dros dro www.naturalengland.org.uk <http://www.naturalengland.org.uk>

- Rheolaeth Coetiroedd ar gyfer Ystlumod: Canllaw arfer da. Ar gael yn: http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFOD-6K3CXY;

- Canllaw ar reoli coetiroedd sy'n cynnwys ystlumod yn Lloegr. Fersiwn 3, 2013. Ymchwil Coedwigaeth, Comisiwn Coedwigaeth (Lloegr) a'r Adran Gorfforaethol a Chefnogaeth Coedwigoedd a Natural England. Ar gael yn: http://www.forestry.gov.uk/pdf/england-protected-species-bats.pdf/$FILE/england-protectedspecies-bats.pdf

- Canllawiau Lliniaru Ystlumod. A.J. Mitchell-Jones, English Nature 2004

- The lesser horseshoe bat Conservation Handbook. H. W. Schofield, The Vincent Wildlife Trust, 2008

- Rheoli Coetiroedd lle mae rhywogaethau o ystlumod yn bresennol - Canllawiau ar gyfer cydymffurfiaeth gyda Chadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati.) (Lloegr a Chymru) Rheoliadau 1994 fel y diwygiwyd

gan Gadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (Lloegr a Chymru) (Diwygiad) Rheoliadau 2007 (Rheoliadau Cynefinoedd.) <http://www.forestry.gov.uk/pdf/batswalesv4.pdf/$FILE/batswalesv4.pdf>

**Adolygwyd: Chwefror 2014**

## Nodau

Ar gyfer y mwyafrif o rywogaethau, mae prinder data gwaelodol yn gwneud gosod targedau ar gyfer cynnal/ehangu maint y boblogaeth/ystod yn amhosib. Mae'r ffocws isod felly ar ddarparu mannau addas ar gyfer cynefinoedd lle y gall y rhywogaeth ffynnu yn yr hirdymor.

| Rhif | Nod/amcan | Dyddiad gorffen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| BAT01 | Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhywogaeth a gynhwysir yn y cynllun hwn. | Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
| BAT02 | Cynnal/ehangu ardal ar gyfer cynefinoedd porthiant safonol. | Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
| BAT03 | Edrych am gyfleoedd i wella ac ehangu cydgysylltiadau ecolegol rhwng ardaloedd porthiant a chlwydfannau ar raddfa fawr (h.y ledled Sir Benfro.) | Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
| BAT04 | Ceisio diogelu ystlumod a'u mannau gorffwys (clwydfannau) rhag ymyrraeth, dadfeiliad neu eu colli'n llwyr e.e trwy'r System Datblygu Rheolaeth. | Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
| BAT05 | Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a rhannu arfer da ymysg ymarferwyr proffesiynol a'r cyhoedd. | Dyddiad yr adolygiad nesaf | |

**Adolygwyd: Chwefror 2014**

**Gweithred**

| Cod | Gweithred | Adroddiad gan | Rôl Arweiniol | Datblygiad/Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| POLG1.01 | Sicrhau darpariaeth addas ar gyfer cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau oddi fewn i Gyngor Sir Benfro a Chynlluniau Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys bioamrywiaeth y tu allan i'r safleoedd dynodedig. | | PBSB | Cyfeirio'n rhannol at BAT02 &04 |
| POLG1.03 | Trwy weithredu Canllawiau Cynllunio Bioamrywiaeth Ychwanegol Sir Benfro, sicrhau fod pob cais cynllunio yn cael ei asesu ar gyfer effeithiau posib ar adnoddau bioamrywiaeth. Sicrhau fod ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Gynefinoedd a Rhywogaethau CGBLl yn cael eu datrys ac yn gynnwys arolygon ecolegol cynhwysfawr sydd wedi cael ystyriaeth fanwl a bod mesurau i liniaru effeithiau negyddol posib yn eu lle. | | PBSB | Cyfeirio'n rhannol at BAT02 &04 |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |